Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | 5 Medi 2019 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | e-bost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 13 MEDI 2019** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHIN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y 12 Ebrill 2019 (copi ynghlwm) a'r 24 Gorffennaf 2019 (copi ynghlwm).

**5 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – LLYFR ACHOS COD YMDDYGIAD** (Tudalennau 17 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn hysbysu'r aelodau am gyhoeddiad diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

**6 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a Chynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 25 - 26)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

**8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10.00 a.m. ar y 6 Rhagfyr 2019 yn ystafell bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

**RHAN 2: EITEM CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf), ei datgelu.

**9 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000** (Tudalennau 27 - 40)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy'n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**AEOLODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes, Anne Mellor a/ac Peter Lamb

Aelod Cyngor Tref / Cymuned
Gordon Hughes

Cynghorwyr Sir
Y Cynghorydd Paul Penlington
Y Cynghorydd Andrew Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl LL18 3DP, Dydd Gwener, 12 Ebrill 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol: Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes, Anne Mellor a Peter Lamb

Aelod Cyngor Tref / Cymuned: Gordon Hughes

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW) a Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar ran y Cynghorydd Andrew Thomas.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Tynnodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes sylw at achos a gyfeirir ato yn y dogfennau ar gyfer cyfarfod heddiw oedd yn gysylltiedig i Bwyllgor Safonau yr oedd hi’n aelod ohono. Er hynny fe ddywedodd y Swyddog Monitro bod y cysylltiad ddim yn cynnwys cyswllt personol agos ac nid oedd yn gysylltiad personol o dan y cod ymddygiad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 30 Tachwedd 2018 a chyfarfod arbennig y Pwyllgor Safonau ar 24 Ionawr 2019.

Tynnwyd sylw at y teitl ‘cynghorydd’ a gafodd ei ddefnyddio mewn camgymeriad ar gyfer aelodau’r pwyllgor, Julia Hughes a Gordon Hughes.

Gofynnodd yr Aelod Annibynnol Peter Lamb i fersiwn drafft terfynol o’r cofnodion gael ei anfon ar e-bost i aelodau’r pwyllgor er gwybodaeth yn hytrach nag aelodau’n gorfod aros am gyhoeddiad o’r agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 30 Tachwedd 2018 a chyfarfod arbennig y Pwyllgor Safonau ar 24 Ionawr 2019 fel cofnodion cywir.*

## 5 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar Lyfr Achosion Cod Ymddygiad - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (wedi'i ddosbarthu'n barod). Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor mai bwriad y Llyfr Achosion yw helpu aelodau ac eraill i ystyried os oedd amgylchiadau yr oedden nhw'n rhan ohonynt yn torri'r Cod. Darparwyd gwybodaeth hefyd am y ffordd y mae'r Ombwdsmon a phwyllgorau safonau eraill yng Nghymru yn delio gydag achosion.

Tynnodd y Swyddog Monitro sylw at achosion yn y Llyfr Achosion yn berthnasol i:

- gerydd cyn aelod o Gyngor Tref Neyland am dorri'r Cod Ymddygiad drwy geisio stopio prosiect yr oedd y Cyngor wedi cytuno ei gefnogi;
- cwyn yn erbyn cyn-aelod o Gyngor Sir Fynwy (a chyn-gynghorydd cymuned) oedd wedi anfon e-byst lle'r oedd yr achwynydd o'r farn oedd yn cynnwys sylwadau a oedd yn dangos diffyg parch ac ystyriaeth i aelodau o'r gymuned LGBT (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol A Thrawsrywiol). Roedd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r achos i Banel Dyfarnu Cymru i gael ei ddyfarnu gan dribiwnlys. Roedd amddiffyniad yn erbyn y cwyn yn dyfynnu rhyddid mynegiant, rhyddid mynegiant crefyddol a budd y cyhoedd. Daeth y Tribiwnlys i'r canlyniad fod y cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ac wedi cymryd ffactorau lliniaru i ystyriaeth, cafodd y cynghorydd ei wahardd am gyfnod o ddeufis.

Trafododd Aelodau'r proses Llyfr Achosion o riportio achosion a sut y mae system Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio. Dywedodd y Swyddog Monitro am achos yn ymwneud â Chyngor Cymuned Llandegla yr oedd yr Ombwdsmon wedi ei archwilio ond gwelwyd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau gweithredu. Roedd y partïon ynghlwm wedi cytuno i dderbyn cymorth y Swyddog Monitro i gyfryngu ond roedd un o'r partïon wedi ymddiswyddo o'r rôl cyn i'r cyfryngu gymryd lle.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth wedi'i gynnwys yn y Llyfr Achosion Cod Ymddygiad.*

## 6 ADRODDIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad 2019 gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn adolygu safonau moesol llywodraeth leol yn Lloegr.

Er bod yr adolygiad yn berthnasol i weithredu'r drefn safonau yn Lloegr yn unig fe ddywedodd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad a'i argymhellion yn rhoi cymhariaeth ddiddorol o'r systemau yng Nghymru a Lloegr.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr aelodau fod y Bwrdd Safonau (Lloegr) blaenorol wedi bod dan rwymedigaeth i archwilio'r holl gwynion a bod y system wedi colli pob parch cyn cael ei ddiddymu yn 2012. Cafodd y system hynod ganoledig ei newid am system hynod ddatganoledig yn Lloegr.

Yn wahanol i god ymddygiad enghreifftiol Cymru oedd yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol Cymru, roedd y cynghorau yn Lloegr bellach yn gallu penderfynu

ar gynnwys y codau eu hunain. Y ddyletswydd statudol ar gyfer y codau, wrth edrych arnynt yn eu cyfanrwydd, oedd i fod yn gyson gyda saith egwyddor bywyd cyhoeddus ("Egwyddorion Nolan") a chynnwys darpariaethau ar gyfer cofrestru a datgan cysylltiadau ariannol a heb fod yn ariannol. Y bwriad oedd nid trin y Saith Egwyddor fel cod hunangynhwysol ond yn hytrach bod yr egwyddorion yn cael eu defnyddio i danategu arweiniad ar ymddygiad oedd yn ymarferol, wedi'i ddrafftio'n dda ac yn berthnasol yn lleol.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod system Lloegr wedi canolbwyntio ar ddatgelu diddordebau ariannol ond gyda diffyg prawf gwrthrychol ar yr hyn a welir fel cysylltiad sy'n rhagfarnu. Nid oedd gofyniad i gofrestru rhoddion neu letygarwch. Dywedodd y Swyddog Monitro fod y diffyg cosbau yn system safonau Lloegr yn debygol o wneud swyddogaeth swyddogion monitro yn Lloegr yn anodd.

Cynghorwyd Aelodau bod y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus wedi cymryd tystiolaeth o gyrff safonau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a bod llawer o'r arferion da a amlygir yn adlewyrchu'r arferion presennol yng Nghymru.

Roedd yr adolygiad wedi canfod o'r cynghorau yn Lloegr oedd wedi derbyn cwynion bod 83% yn mynegi bod cwynion wedi eu gwneud am ymddygiad amharchus, 63% am fwlio a 31% am ymddygiad trafferthus. Yn ymateb i gwestiwn fe ddywedodd y Swyddog Monitro yn anecdotaidd fod y mwyafrif o gwynion yng Nghymru ar gyfer ymddygiad ac anghwrteisi a'i fod yn debygol bod methiant i ddatgelu diddordebau wedi'i dan-riportio. Dyma faes sydd o bosib angen ei ddatblygu.

Awgrymodd y Cadeirydd bod y pwynt hwn yn cael ei ddadlau mewn mwy o fanylion yn y cyfarfod nesaf ar y cyd â chasgliad o'r cwynion a wnaed. Gofynnodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes bod sylw hefyd yn cael ei roi i doriadau mewn Cod Ymddygiad a oedd yn debyg i'r enghreifftiau o fwlio a ddefnyddiwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn nhudalen 76 o'r adolygiad.

Trafododd y Pwyllgor yr achos o fwlio ac ymddygiad camdriniol tuag at ferched yn aml mewn cynghorau dan ddylanwad dynion. Cynghorodd y Swyddog Monitro ar y nifer o gamau gweithredu cydraddoldeb a ddefnyddiwyd i wella amrywiaeth a oedd yn cael eu defnyddio gan nifer o sefydliadau'r sector cyhoeddus. Dywedodd hefyd fod rôl y Pwyllgor Safonau yn berthnasol i'r Cod Ymddygiad a bod y rhan fwyaf o ymosodiadau ar gynghorwyr yn dod gan y cyhoedd yn hytrach na chyd-gynghorwyr, a bod llawer o'r rhain yn gysylltiedig â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

## 7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Dyma'r Cadeirydd yn gwahodd aelodau o'r Pwyllgor i rannu eu sylwadau o'r cyngor cymuned, dinas a thref y maent wedi eu mynychu yn ddiweddar.

Darparodd yr aelod Cyngor Tref a Chymuned, Gordon Hughes arsylwadau ar gyfarfod Cyngor Cymuned Llanynys a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2019. Dywedodd ei

fod wedi derbyn manylion y cyfarfod, yr amser a'r lleoliad yn brydlon ar ôl gofyn amdanyn nhw ond nid oedd ganddo fynediad i agenda neu adroddiadau. Dywedodd Mr Hughes bod gan y cyngor cymuned wefan ddwyieithog ond bod y wefan ddim yn rhoi mynediad i agendâu, cofnodion ac adroddiadau.

Dywedodd Mr Hughes am y cyfarfod ei fod yn cael ei arwain mewn modd derbyniol gydag awyrgylch dda a pherthynas wych rhwng y cynghorwyr.

Roedd Mr Hughes wedi mynychu cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch ar 25 Chwefror 2019. Fel gyda'r ymweliad blaenorol, cafodd ymholiad Mr Hughes ei ateb yn brydlon gyda manylion y cyfarfod ac fe gafodd yr agenda a'r cofnodion hefyd. Roedd gan y cyngor wefan ddwyieithog ond nid oedd modd cael gafael ar y dogfennau o'r wefan.

Cynghorwyd yr aelodau fod y cyfarfod yn cael ei arwain yn dda ac yn drefnus, yn ôl yr agenda a phob eitem gyda phenderfyniadau a chamau gweithredu amlwg yn gysylltiedig â nhw. Roedd yr awyrgylch a'r berthynas a arsylwyd rhwng y cynghorwyr yn wych. Dywedodd Mr Hughes fod yr hyfforddiant yn cael ei ystyried i fod o flaenoriaeth uchel gan y cyngor cymuned. Roedd ffurflenni datgan cysylltiad ar gael yn y cyfarfod ac roedd rhai wedi eu cwblhau yn datgan cysylltiad i geisiadau grant yn y gymuned leol. Yr holl aelodau wedi aros yn yr ystafell gyfarfod ar gyfer yr eitem.

Aelodau'r Pwyllgor, Julia Hughes a Peter Lamb wedi mynychu'r cyfarfod yng Nghyngor Cymuned Efenechtyd a gynhaliwyd ar 2 Ionawr 2019.

Dywedodd Mrs Hughes ei bod wedi derbyn ymateb prydlon i gais am wybodaeth cyfarfod gan y clerc, ond nid oedd gwefan y cyngor wedi'i ddiweddaru. Roedd yr eitem ar yr agenda ar 'gyfranogiad cyhoeddus' er nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hwn ac fe welodd bod y Clerc wedi rhoi llawer o gefnogaeth i'r Cadeirydd a'r cyfarfod. Roedd y cynghorwyr wedi trafod achosion hyfforddi yn y cyfarfod.

Dywedodd Mr Lamb fod yr eitem ar ddatgan cysylltiad gyda sgript yn amlinellu diben yr eitem. Dywedodd y Swyddog Monitro fod Cyngor Sir Ddinbych wedi rhannu copi o'i sgript ffurfiol a ddefnyddiwyd er budd y cyhoedd mewn cyfarfodydd wedi'i gweddarlledu.

Gofynnodd Mr Lamb os oedd cynghorau tref a chymuned yn gweld presenoldeb aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn ddefnyddiol i helpu gyda threfniadau eu cyfarfodydd? Ychwanegodd hefyd fel siaradwr di-Gymraeg yn mynychu cyfarfod lle'r oedd y rhan fwyaf ohono yn Gymraeg, roedd yn ymwybodol y byddai ei bresenoldeb yn gallu arwain at newid yn iaith y cyfarfod ac y byddai'n cadw hynny yn y cof y tro nesaf y byddai'n dewis pa gyfarfodydd tref a chymuned yw mynychu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor yn nodi presenoldeb gan ei aelodau mewn cyfarfodydd cyngor dinas, tref a chymuned**.***

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (wedi'i ddosbarthu'n barod).

Yn ystod trafodaeth ar yr eitem ar gofnodion y cyfarfod diwethaf fe gytunodd y Pwyllgor i awgrym gan Aelod y Pwyllgor, Julia Hughes i ail-drefnu'r eitem ar *adolygiad o bresenoldeb mewn cynghorau dinas, tref a chymuned* o gyfarfod Mehefin i gyfarfod Medi. Byddai'r adroddiad yn annog trafodaeth gynhwysfawr ar gyfarfodydd a fynychwyd a'r rheiny wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau.*

## 9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau yw 7 Mehefin 2019 am 10am yn yr Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod, tra bod yr eitem a ganlyn yn cael ei ystyried, oherwydd ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai'r wybodaeth eithriedig yn cael ei ddatgelu iddynt (fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf).*

## 10 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (wedi'i ddosbarthu'n barod) yn rhoi golwg cyffredinol o gwynion wedi'u cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cafwyd gwybodaeth gan y Swyddog Monitro ar gwynion wedi eu cyflwyno yn cynnwys cynghorau yn Sir Ddinbych, gan roi manylion amlinellol ar natur y cwynion a'r camau gweithredu wedi'u cymryd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN, ddydd Mercher, 24 Gorffennaf 2019 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Yr Aelodau Annibynnol Ian Trigger (Cadeirydd), Anne Mellor a Peter Lamb ynghyd â Chynghorydd Cymuned Gordon Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL**

Swyddog Monitro (Mr G Williams),
Yn gweithredu ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Mrs A Ginwalla a Ms E Lewis),
Cynghorydd Tref Prestatyn Peter Duffy a'i Gyfreithiwr (Mr J Owens),
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Mrs K Evans)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Andrew Thomas a'r Aelod Annibynnol Julia Hughes.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4 GWNEUD PENDERFYNIAD YNGHYLCH HONIAD O DORRI'R COD YMDDYGIAD A ATGYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR SAFONAU GAN OMBWDSMON Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU DAN ADRANNAU 69 A 71(2) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwyniad

Gofynnodd y Cadeirydd, Ian Trigger, am gyflwyniadau o amgylch y bwrdd ac egluro'r weithdrefn ar gyfer y diwrnod. Eglurodd y Cadeirydd ei fod yn gyfarfod cyhoeddus a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Roedd pedwar cam posibl i'r gwrandawiad:

I. Cam 1 – materion gweithdrefnol rhagarweiniol;
II. Cam 2 – ystyried unrhyw ffeithiau sy'n destun dadl;
III. Cam 3 – gwneud penderfyniad a fu diffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad yn seiliedig ar y ffeithiau a nodwyd;
IV. Penderfynu ar y gosb (os oes angen).

Roedd gwybodaeth ychwanegol ar ffurf copi o achos Livingstone v Panel Dyfarnu Lloegr (Hydref 2006). Roedd y Cadeirydd wedi gofyn i'r Pwyllgor ddarllen y papur dros nos.

Eglurodd y Cadeirydd i gyfreithiwr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) (Mrs A Ginwalla) a Chyfreithiwr Cynghorydd Tref Prestatyn Peter Duffy (Mr J Owens) fod y Cynghorydd Tref Prestatyn a Chyngor Sir Ddinbych, Paul Penlington (yr achwynydd) yn aelod o'r Pwyllgor Safonau ond nid oedd testun y cwyn wedi'i drafod yn unrhyw un o'r cyfarfodydd yr oedd wedi'u mynychu.

Gofynnodd Mr Owens bod y cyfarfodydd sy'n cael eu hystyried yn cael eu nodi gyda "c" fach gan nad oeddent yn gyfarfodydd cyhoeddus swyddogol. Cytunodd cyfreithiwr PSOW a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Gan nad oedd unrhyw faterion rhagarweiniol, gwahoddwyd datganiadau agoriadol byr gan y naill barti.

<u>Ystyried unrhyw anghytundebau sylweddol o ran y ffeithiau.</u>

Cyfeiriodd Mrs Ginwalla at adroddiad PSOW yn y papurau cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn flaenorol), gan nodi cwyn gan y Cynghorydd Paul Penlington ynglŷn ag ymddygiad y Cynghorydd Peter Duffy tuag ato ar sawl achlysur.

Ymchwiliwyd dau o'r achosion. Roedd y digwyddiadau ar 2 Tachwedd 2016 a 11 Mai 2017 wedi'u nodi yn yr adroddiad ac roedd tystiolaeth wedi'i gasglu gan ddetholiad ar hap o dystion.

Roedd y PSOW wedi penderfynu yn ôl pob tebyg bod ymddygiad y Cynghorydd Duffy ar 2 Tachwedd 2016 wedi bod y tu hwnt i lefel sy'n rhesymol ac o bosib yn gamdriniaeth bersonol. Roedd tystiolaeth bod y Cynghorydd Duffy wedi dweud rhywbeth personol (er bod rhywfaint o ddadlau o ran yr hyn yr oedd tystion wedi'i glywed) i'r Cynghorydd Penlington mewn cyfarfod ar 11 Mai 2017.

Cynghorwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd (IT) bod Cynghorydd Tref Prestatyn Martyn Poller wedi darparu datganiad tyst i'r PSOW yn flaenorol ond na fyddai'n bresennol ei hunan ac nad oedd eisiau iddo gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth. Cadarnhaodd Mrs Ginwalla hyn ond bod datganiad y Cynghorydd Poller a'r nodiadau cyfoes o'r cyfarfod ar 11 Mai 2017 wedi'u cytuno fel cofnod cywir a'u hystyried fel rhan o ystyriaethau PSOW. Roedd yr un peth yn wir ar gyfer datganiad tyst y Cynghorydd Sandilands, o Gyngor Tref Prestatyn. Nid oedd y Cynghorydd Sandilands wedi tynnu ei ddatganiad yn ôl ond roedd wedi gwrthod y gwahoddiad i fynychu'r gwrandawiad.

Hysbysodd Mr Owens y Pwyllgor bod y Cynghorydd Duffy wedi cysylltu ag ef fel Cynghorydd ers peth amser yn ceisio cyngor ar ymateb gan y PSOW ynglŷn â chwynion a wnaed am ei ymddygiad ynghyd â'r datganiadau tyst anghyson ac anghywir.

Gofynnwyd i dystion a gyflwynodd ddatganiadau i'r PSOW yn flaenorol, i gyflwyno eu tystiolaeth yn y gwrandawiad. Byddai cyfle i'r naill ochr a'r llall ac aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau ategol at ddatganiadau'r tystion.

Wrth gyflwyno pob tyst gofynnodd Mrs Ginwalla i bob un ohonynt gadarnhau eu bod wedi cael cyfle i adolygu eu datganiad; fod ganddynt ddatganiad o'r gwir wedi'i lofnodi a gofyn a oedd angen unrhyw ddiwygiadau (nid oedd angen rhai).

Cafwyd tystiolaeth gan dystion yn y drefn ganlynol:

- Peter Gaffey – Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Carol Evans – Clerc Tref Cynorthwyol (Prestatyn)
- Tina Jones – Cynghorydd Tref Prestatyn a Sir Ddinbych
- Paul Penlington – Cynghorydd Tref Prestatyn a Sir Ddinbych
- Peter Duffy – Cynghorydd Tref Prestatyn
- Rhingyll yr Heddlu Mark Jones - Heddlu Gogledd Cymru
- Gerry Frobisher – Cynghorydd Tref Prestatyn
- Andrea Tomlin – Cynghorydd Tref Prestatyn
- Linda Muraca – Cynghorydd Tref Prestatyn

Cadarnhaodd y Cadeirydd o ran y sylwadau gan dystion nad oeddent yn bresennol:

- Ni fyddai datganiad y Cynghorydd Poller yn cael ei ystyried a
- Byddai datganiad y Cynghorydd Sandiland yn cael ei ystyried ond gyda llai o bwysau iddo.

<u>Ffeithiau sy'n destun dadl.</u>

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ffeithiau sy'n destun dadl y PSOW (tudalen 17) a gofyn a oedd y rhain yn parhau i fod yn destun dadl neu a oes angen unrhyw ddiwygiad yn dilyn y dystiolaeth a gafwyd.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid gollwng y ffaith gyntaf o ran ymddygiad ymosodol a bygythiol ac y dylid diwygio geiriad y tair ffaith arall fel a ganlyn:

- A oedd y Cynghorydd Duffy yn arddangos diffyg parch a diffyg ystyriaeth i unrhyw un neu'r ddau swyddog heddlu yn y cyfarfod ar 2 Tachwedd 2016?
- A wnaeth y Cynghorydd Duffy gyfeirio at y Cynghorydd Penlington fel "f***ing prick" neu "prick" cyn dechrau cyfarfod 11 Mai 2017?
- A wnaeth y Cynghorydd Duffy gyfeirio at y Cynghorydd Penlington fel “fool” neu “idiot” yn ystod cyfarfod 11 Mai 2017?

Gwahoddwyd y ddau barti i gyflwyno sylwadau ar y ffeithiau sy'n destun dadl o'r dystiolaeth sydd o'u blaenau.

Cyflwynodd Mr Owens bryderon o ran cyflwyniad rhannol e-bost gan Ringyll yr Heddlu Mark Jones. Roedd copi o'r e-bost gwreiddiol llawn ym mhapurau Mrs.Ginwalla a rhannodd gopi gyda'r Cynghorydd Duffy, Mr Owens a'r Pwyllgor.

Aeth y Pwyllgor Safonau i ystyried y cyflwyniadau, gan ofyn i'r Swyddog Monitro ymuno â nhw ar gyfer rhan o'r drafodaeth i gynghori ar faterion gweithdrefnol.

Penderfyniad a fu diffyg cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymddygiad.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth – llafar ac ysgrifenedig, penderfynodd y Pwyllgor Safonau'n unfrydol bod y Cynghorydd Duffy yn ôl pob tebyg:

I. Wedi arddangos diffyg parch a diffyg ystyriaeth i unrhyw un neu'r ddau swyddog heddlu yn y cyfarfod ar 2 Tachwedd 2016.
II. Wedi cyfeirio at y Cynghorydd Penlington fel "prick" cyn cyfarfod 11 Mai 2017.
III. Wedi cyfeirio at y Cynghorydd Penlington fel "fool" neu "idiot" yn ystod cyfarfod 11 Mai 2017.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau eiriolydd am yr arddull o gyflwyno sylwadau a gofyn iddynt gyflwyno sylwadau a oedd y gweithredoedd yn ddigon i dorri Cod Ymddygiad Cyngor Tref Prestatyn. Cafwyd trafodaeth ynghylch:

- Para 5 – Mae'n rhaid i Aelodau.... ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill a
- Para 6 – Ni chaiff Aelodau... ymddwyn mewn modd y gellir ei ystyried fel dwyn anfri ar aelod neu'r awdurdod.

Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod y Cynghorydd Duffy yn rhoi'r argraff yn y cyfarfodydd ei fod yn gweithredu fel Cynghorydd ac felly roedd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Canfu'r Pwyllgor Safonau, mewn perthynas â'r ffeithiau, bod y Cynghorydd Duffy wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill ac wedi ymddwyn mewn modd a allai ddwyn anfri ar aelod neu'r awdurdod.

Penderfyniad ar gamau gweithredu i'w cymryd (os oes rhai)

Gwahoddwyd y ddau barti i gyflwyno sylwadau o ran cosbau. Roedd y cosbau posibl yn cynnwys:

- dim camau pellach o ran methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
- y dylid ceryddu'r Aelod; neu
- y dylid gwahardd neu wahardd yr Aelod yn rhannol o fod yn Aelod o Gyngor Tref Prestatyn am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis.

Eglurodd y Swyddog Monitro mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau oedd penderfynu a'u cyfeirio at y canllawiau gan Banel Dyfarnu Cymru.

Yn dilyn trafodaethau, cyhoeddodd y Cadeirydd mai penderfyniad unfrydol y Pwyllgor Safonau oedd bod y Cynghorydd Duffy wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Tref Prestatyn drwy:

- Para 5 – beidio â dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill a
- Para 6 –ymddwyn mewn modd y gellir ei ystyried fel dwyn anfri ar aelod neu'r awdurdod.

***Hysbyswyd y partïon y byddent yn derbyn penderfyniad ysgrifenedig llawn yn nodi rhesymau'r Pwyllgor dros gyrraedd eu casgliadau.***

***PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Peter Duffy yn cael ei wahardd o'i rôl fel Cynghorydd Tref Prestatyn am gyfnod o bedwar mis.***

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Medi 2019** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Llyfr Achosion Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am argraffiad diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad.

**4. Manylion yr Adroddiad.**

4.1 Ers 2013 mae'r Ombwdsmon wedi llunio Llyfr Achosion Cod Ymddygiad (y Llyfr Achosion). Am beth amser cyn hynny bu'r Ombwdsmon yn cynhyrchu llyfr achosion oedd yn ymwneud â'r cwynion y bu'n ymchwilio iddynt o safbwynt camweinyddu honedig gan gyrff cyhoeddus. Yn dilyn galwadau i ddefnyddio dull tebyg o safbwynt cwynion cod ymddygiad, dechreuodd yr Ombwdsmon gyhoeddi'r Llyfr Achosion yn 2013.

4.2 Yn wreiddiol, roedd y Llyfr Achosion yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, fodd bynnag mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu cynhyrchu'r llyfr achosion yn chwarterol o fis Ebrill 2015. Mae'r Llyfr Achosion yn cynnwys crynodeb o bob achos y mae'r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.

4.3 Cynhyrchwyd y Llyfr Achosion i gynorthwyo Aelodau ac eraill i ystyried a yw'r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu yn arwain at dorri'r Cod. Roedd hyn yn ychwanegiad i gyhoeddi esiamplau gwirioneddol yng Nghanllaw Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â'r Cod.

4.4 Mae'r Llyfr Achosion hefyd yn cynorthwyo Pwyllgorau Safonau awdurdodau lleol trwy roi mynediad iddynt at wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru yn gosod cosbau a chael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion, y gall yr Ombwdsmon wrthod

ymchwilio achosion honedig o dorri rheolau ar y sail nad yw honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at gosb.

4.5 Mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn cynnwys 20fed Argraffiad y Llyfr Achosion a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, yn trafod y cyfnod o fis Ionawr 2019 tan fis Mawrth 2019. Bydd Aelodau'n nodi bod dau grynodeb achos yn yr argraffiad hwn o'r llyfr achosion, gyda'r ddau ohonynt yn dod i'r casgliad nad oedd angen gweithredu. Nid oedd unrhyw un o'r achosion yn ymwneud â Chynghorwyr yn Sir Ddinbych.

4.6 Mae'r ddau grynodeb achos yn ymwneud yn bennaf â honiadau am fethu â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. Mae'r cyntaf yn ymwneud â honiad bod aelod o Gyngor Tref Doc Penfro wedi ymddwyn yn amharchus ac mewn modd y gellid ei ystyried yn fwlio tuag at gyn-Glerc y Cyngor dros gyfnod o dair blynedd. Ar ben hyn, honnwyd bod yr aelod, o bosib', wedi methu â datgelu cysylltiad â busnes y Cyngor. Cynhaliodd yr Ombwdsmon ymchwiliad ac nid oedd wedi'i argyhoeddi bod yr aelod wedi gweithredu mewn modd amharchus ac y gellid ei ystyried yn fwlio. Casglodd wedyn ei bod yn debygol y gallai'r aelod fod wedi torri'r cod wrth fethu â datgan cysylltiad personol mewn cyfarfodydd. Nid yw'r Llyfr Achosion yn cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol i egluro'r penderfyniad nad oedd angen unrhyw gamau eraill ynghlwm â methu â datgan cysylltiad.

4.7 Mae'r ail grynodeb achos yn ymwneud â phedair cwyn ynghylch ymddygiad aelodau Cyngor Tref Saltney. Yr honiad oedd bod nifer o aelodau'r Cyngor, o bosib', wedi mynd yn groes i'r Cod trwy fod yn rhan o ffrae gyda chynghorwyr eraill o flaen aelodau'r cyhoedd. Agorodd yr Ombwdsmon ymchwiliad i'r cwynion a chanfu fod yr ymddygiad y gwnaed cwyn yn ei gylch yn is na'r safon a ddisgwylid gan aelodau etholedig. Casglodd yr Ombwdsmon ei fod yn ymddygiad pitw ac anaeddfed ac nad oedd yn cyfiawnhau defnyddio mwy o adnoddau cyhoeddus. Penderfynodd, felly, nad oedd camau pellach o fudd pennaf i'r cyhoedd.

4.8 Ni chyfeiriwyd unrhyw achos ychwaith at Bwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Nid fu adroddiad nac ymgynghoriad ar y mater hwn yn unman arall.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

d) (ch) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Ionawr i Fawrth 2019.

# Cynnwys

Dim tystiolaeth o dorri'r cod....................1
Nid oes angen gweithredu.................... 1
Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau....................2
Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru....................2

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r Cod

Ni does crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

## Nid oes angen gweithredu

### Cyngor Tref Doc Penfro – Hybu cydraddoldeb a pharch

### Rhif yr Achos: 201706079 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2019

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod ("yr Aelod") o Gyngor Tref Doc Penfro ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod Ymddygiad") ar gyfer aelodau. Honnwyd bod yr Aelod wedi ymddwyn mewn modd amharchus a bygythiol tuag at Glerc blaenorol y Cyngor, yng nghyfarfodydd y Cyngor ac wrth gysylltu â hi drwy e-bost, rhwng 2014 a'i hymddiswyddiad o'r Cyngor yn 2017.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon a oedd gweithredoedd yr Aelod yn gyfystyr â thoriad o'r rhannau o'r Cod sy'n ymwneud â dangos parch ac ystyriaeth, bwlio ac aflonyddu, dwyn anfri ar y Cyngor a dyletswydd Aelod i ddatgan buddiant os oes ganddo un mewn unrhyw fusnes y Cyngor. Gofynnwyd am wybodaeth gan y Cyngor, Cyngor Sir Penfro a'r Aelod. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda thystion perthnasol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd wedi'i berswadio bod yr aelod wedi ymddwyn mewn modd amharchus nac bygythiol tuag at y Clerc yn ystod cyfarfodydd neu wrth gysylltu â hi drwy e-bost. Penderfynodd hefyd nad oedd y dystiolaeth yn awgrymu toriad o'r Cod sy'n ymwneud â'r Aelod yn dwyn anfri ar y Cyngor. Casglodd yr Ombwdsmon ymhellach ei bod yn debygol y gallai'r Aelod fod wedi torri'r Cod drwy fethu â datgan buddiant personol mewn cyfarfodydd.

### Cyngor Tref Saltney - Hybu cydraddoldeb a pharch

### Rhif yr Achos: 201800177 & 201800178 **&** 201800179 & 201800180 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2019

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelodau ("yr Aelodau") o Gyngor Tref Saltney ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad trwy gymryd rhan mewn dadl â chynghorwyr eraill o flaen aelodau'r cyhoedd, yn dilyn cyfarfod Cyngor Tref.

Dechreuodd yr Ombwdsmon ymchwiliad ar y sail bod paragraffau 4(b), 4(c) a 6 (1)(a) o'r Cod Ymddygiad efallai wedi'u torri.

Canfu'r Ombwdsmon bod yr ymddygiad y cwynwyd yn ei gylch yn is na'r safon y byddai'n ei ddisgwyl gan aelodau etholedig, a bod yr ymddygiad yn bitw ac yn anaeddfed. Daeth i'r casgliad felly na fyddai cymryd camau pellach a defnyddio adnoddau cyhoeddus pellach er lles y cyhoedd.

## Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau

Ni does crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Ni does crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

| DYDDIAD Y CYFARFOD | EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD | AWDUR YR ADRODDIAD |
|---|---|---|
| **06 Rhagfyr 2019** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |

Diweddarwyd 3/9/2019 - SP

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag